



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 10



FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

Cofnodion - 13 Hydref 2025

Parc Gwepra, Ystafell yr Ardd, Cei Connah.

Aelodau – Julian Pellatt, Alan Neale, John Holiday, Jeff Shone, Shirley Fermor, Huw Morgan.

Arsylwyr – Ian Hughes, Kieren Barlow, Hannah Arndt

Swyddogion yn bresennol - Tom Woodall, Derrick Charlton, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Jon Hill, Stuart Jones, Natalie Davies.

Ymddiheuriadau – Y Cynghorydd Dave Evans, Marjorie Thomson, Miranda Dechazal.

1/ Croeso -

Croesawodd JP bawb i 10fed cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

Croesawodd JP y siaradwr gwadd Lee Shone, Rheolwr y Strategaeth Gludiant.

2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf fel yr oeddent wedi'u hysgrifennu.

a. Materion yn Codi

Diwrnod agored Cydgrynhoi'r Map Diffiniol – Dywedodd TW wrth aelodau y cafwyd diwrnod da iawn ond roedd hi'n broses hir. Roedd yr ymgysylltu â'r cyhoedd yn gadarnhaol. Bu i 25-30 aelod o'r cyhoedd ymweld ac roedd ganddynt ddiddordeb mawr yn y gwaith. Rhoddodd ND drosolwg o gydgrynhoi'r map diffiniol a'r holl newidiadau o 1978. Nododd JP bod y map diffiniol yn ddogfen gyfreithiol ac nid oes gan y map digidol yr un statws cyfreithiol â'r un papur. Dywedodd TW y bydd yn cael ei gadarnhau gan y gwasanaethau cyfreithiol, byddwn yn ei adolygu bob 5 mlynedd.

Dywedodd KB ei fod yn siomedig nad yw'n gallu defnyddio'r holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan ei fod yn cael trafferth gyda'r dirwedd ac mae cost cadair olwyn arbenigol yn rhy ddrud.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 10



Prosiect map digidol - ymddiheurodd TW wrth y fforwm gan fod yr eitem hon yn gamgymeriad ar y rhaglen a chafodd ei thrafod yn y cyfarfod diwethaf.

3/ Cyflwyniad am Deithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel

Rhoddodd Lee Shone, Rheolwr y Strategaeth Gludiant o'r Gwasanaethau Stryd, gyflwyniad ar Deithio Llesol a gwaith cyfredol i wella darpariaeth feicio yn Sir y Fflint. Dywedodd fod angen i awdurdodau lleol greu llwybrau beicio ac mae llwybrau mwy diogel yn gwella diogelwch cerddwyr. Maent yn defnyddio mesurau megis tawelu traffig, croesfannau i gerddwyr a lledu llwybrau.

Dywedodd bod nifer o brosiectau'n weithredol ar hyn o bryd a soniodd am rai enghreifftiau megis rhoi wyneb newydd ar ffyrdd yn Aston a Phenarlâg a gwaith £450,000 yn Nhreffynnon. Mae cylchfan Ewlo ble rydym yn ystyried gosod mwy o groesfannau i'w wneud yn fwy diogel ar y cyd ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Sicrhawyd arian ar gyfer ardal Cei Connah i adnabod bylchau yn y rhwydwaith.

Mae'r llwybrau Teithio Llesol wedi eu dangos trwy Fapdata Cymru a rhaid iddynt fod mewn ardal anheddiad ddynodedig.

JP Oes gennych chi gynllun wedi ei gyhoeddi? LS Oes, ar gael ar ein gwefan

JH beth am y lefel uchel o draffig yn yr Wyddgrug? Cytunodd LS a dywedodd fod llawer iawn o draffig yn yr ardal hon. Soniodd LS am y newid i 20mya a'r gwaith i edrych ar ddychwelyd rhai ffyrdd yn ôl i 30mya

Gofynnodd JS os bydd unrhyw lwybrau i'w teithio rhwng Bwcle a Glannau Dyfrdwy? Dywedodd LS bod nifer o gyfyngiadau megis perchnogaeth tir, nifer o bobl yn berchen tir. Dywedodd y bydd yr Awdurdod Prifffyrdd yn cymryd sylw o'r pryderon.

Amlygodd LS bod ymgynghoriad y flwyddyn nesaf a dylai'r fforwm gyfrannu ato.

Cam Gweithredu - Gofynnodd JP i TW ysgrifennu at y Prif Swyddog i ddiolch i LS am fod yn bresennol ac i ofyn iddynt ddiweddarau'r fforwm mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau gyda Theithio Llesol

4/ Parc Cenedlaethol Newydd ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru - Ymgynghoriad Statudol.

Bu i TW roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r fforwm ar waith i ddynodi parc cenedlaethol newydd a bu iddo atgoffa aelodau o'r diweddariad a roddwyd gan Richard Sumner yn y cyfarfod diwethaf. Cytunodd bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf i



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 10



symud ymlaen i ymgynghori statudol. Mae'r ymgynghoriad ar agor i'r cyhoedd, a all gyflwyno eu hadborth ar-lein cyn 8 Rhagfyr.

Gofynnwyd i CSyFf ymateb. Awgrymodd TW y dylai'r fforwm ymateb a byddai'n annog unigolion i gyflwyno eu safbwyntiau eu hunain hefyd. Ychwanegodd TW, fel ymgynghorydd statudol i'r awdurdod lleol, byddai'n werthfawr pe bai'r fforwm yn darparu cyngor i gefnogi eu trafodaethau eu hunain.

HM – o ran ffermio mae lefel sylweddol o gyllid yn yr ardal. Digon o gyfleoedd.

JP – gofynnodd a oedd y buddion wedi eu hyrwyddo.

HM – dywedodd ei bod yn anodd iawn ffurfio barn pan mae gennym yr holl ddogfennau hyn i edrych arnynt.

JP – awgrymodd bod yr ysgrifennydd yn paratoi ymateb gan y fforwm. Byddai cyllid ychwanegol yn cael ei groesawu. Mae angen symleiddio buddion.

HM – dywedodd a ddylem fynd trwy'r ddogfen i weld os oes unrhyw beth ar gyfer mynediad eisoes ar gael.

TW – nododd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu ymrwymiad i ariannu parc cenedlaethol newydd, ond ni allant roi manylion ar hyn o bryd

SF – dywedodd bod angen i unrhyw arian wella pethau nid cynnal.

JS - Dywedodd nad yw'n teimlo y gall ein system draffig ymdopi gyda'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr

JP - dywedodd y dylai ymateb groesawu'r fenter gyda gofal ond mae pryderon yn parhau.

Cam Gweithredu – TW i baratoi ymateb i JP ei ystyried.

5/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Mynediad

Diweddariad chwarterol o faterion sydd wedi eu datrys. SJ i'w anfon gyda'r cofnodion.

KB – gofynnodd am strwythurau ar lwybrau.

SJ – dywedodd os yw tiffeddiannwr yn gwrthod cael giât nid oes gennym y pŵer i wneud iddynt ei thynnu. Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn fwy hygrych.

JP – dywedodd wrth edrych ar gynlluniau y cwestiwn fydd a allwn eu gwneud yn llai cyfyngedig.

SJ – wedi bod yn arolygu ac yn gobeithio gwneud mwy yn yr hydref/gaeaf. Dangosodd luniau o waith yn yr Hôb.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 10



AH – Dangosodd luniau o waith diweddar yn yr Hôb. KB – gofynnodd a ellir gwneud y giât mochyn yn fwy (addas ar gyfer cadeiriau olwyn)

SJ – dywedodd ei bod yn dibynnu ar ddewis y tîrfeddianwyr ond gallwch gael giatiau mochyn mwy.

JP – Yr oll y gall y tîm Mynediad ei wneud yw siarad gyda'r tîrfeddianwyr. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r tîm yn cofnodi'r sgysiau gyda'r tîrfeddianwyr yn y dyfodol.

SJ – dywedodd bod cydbwysedd rhwng grwpiau defnyddwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn, defnyddwyr ceffylau.

JS – dywedodd ei fod wedi gweld ar Facebook bod grŵp marchogaeth yn edrych ar wneud gwelliannau i lwybrau ceffylau ym Mwcle. Nododd SJ ei bod wedi bod mewn cyswllt â rhai o'r marchogion hynny.

6/ Unrhyw Fater Arall

Bydd TW yn rhannu e-bost i hyrwyddo gwybodaeth ddefnyddiol y cod cefn gwlad. Megis perchenogaeth cŵn ar lwybrau cenedlaethol.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf - 19 Ionawr 2026